

EISTEDDFOD GADEIRIOL LLANGADOG

11/4/20

Telyneg - Pryder	Cadair Fechan a £50
Englyn – Y Gwynt	£30
Brawddeg – S A W Dd E	£15
Gorffen Limrig – Un noson wrth wylio'r teledu	£15
Dau Driban – ENNILL a CHOLLI	£30
Parodi – Hon – T.H.Parry Williams	£30

*Beth yw'r ots gennyf i am Gymru? Damwain a hap
Yw fy mod yn ei libart yn byw. Nid yw hon ar fap
Yn ddim byd ond cilcyn o ddaear mewn cilfach gefn,
Ac yn dipyn o boendod i'r rhai sy'n credu mewn trefn.
A phwy sy'n trigo'n y fangre, dwedwch i mi.
Dim ond gwehilion o boblach? Peidiwch, da chwi,
Â chlegar am uned a chenedl a gwlad o hyd:
Mae digon o rhain, heb Gymru, i'w cael yn y byd.
'Rwyf wedi alaru res talm ar glywed grŵn
Y Cymry, bondigrybwyll, yn cadw sŵn.
Mi af am dro, i osgoi eu lleferydd a'u llên,
Yn ôl i'm cynefin gynt, a'm dychymyg yn drên.
A dyma fi yno. Diolch am fod ar goll
Ymhell o gyffro geiriau'r eithafwyr oll.
Dyma'r Wyddfa a'i chriw; dyma lymder a moelni'r tir;
Dyma'r llyn a'r afon a'r clogwyn; ac, ar fy ngwir,
Dacw'r tŷ lle'm ganed. Ond wele, rhwng llawr a ne'
Mae lleisiau a drychiolaethau ar hyd y lle.
'Rwy'n dechrau simsanu braidd; ac meddaf i chwi,
Mae rhyw ysictod fel petai'n dod drosof i;
Ac mi glywaf grafangau Cymru'n dirdynnu fy mron,
Duw a'm gwaredo, ni allaf ddianc rhag hon.*

Cyfieithu i'r Gymraeg: £30

*Remember how the darkness
is followed by the light,
How warm and sunny days
Come after each long night,
How springtime follows Winter
And the rainbow cloaks the rain;
In the same way life's sad moments
Soon turn to joy again.*

I ddysgwyr – Y daith gerdded £30

Y cyfansoddiadau 'llên' gyda ffugenwau i fod yn llaw'r ysgrifennydd: Sian Thomas, Llygad yr Haul, Llangadog, SA19 9BU erbyn **Mawrth 27ain 2020. Yr ymgeiswyr i anfon eu henwau priodol mewn amlen dan sêl.**

Y cyfansoddiadau buddugol yn eiddo i'r pwyllgor.

Dychwelir y cyfansoddiadau anfuddugol ond i'r perchennog wneud cais amdanynt, gan amgáu amlen barod.

Disgwylir i'r bardd buddugol fod yn bresennol yn y seremoni cadeirio tua 7.30 o'r gloch Nos Sadwrn.